Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Rhufeiniaid

## Uned 4



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r canllaw hwn | 3 |
| Rhagymadrodd | 4 |
| Darganfod tref Rufeinig Caerllion | 5 |
| Celc a thrysor | 7 |
| Ynghudd yn y pridd | 8 |
| Darganfyddiadau Rhufeinig yng Nghymru | 11 |
| Archwiliwch linell amser y Rhufeiniaid yng Nghymru | 12 |
| Gweithgaredd Gwych 1 | 28 |
| Gweithgaredd Gwych 2 | 29 |

# Ynglŷn â'r canllaw hwn

Uned 4: Llinell Amser y Rhufeiniad yng Nghymru

## Thema'r uned

Llinell amser glir a dealladwy. Rhannu trosolwg o safleoedd Rhufeinig sefydledig mewn trefn gronolegol.

## Amcanion Dysgu

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar waith archaeolegwyr a'u darganfyddiadau yma yng Nghymru. Bydd dysgwyr yn cael eu harwain i gloddio ar raddfa fechan, a deall pwysigrwydd tystiolaeth ffisegol ar ffurf arteffactau a ganfuwyd yn y tir er mwyn gwella ein dealltwriaeth o gyfnod hanesyddol penodol. Bydd hyn yn eu helpu i ddeall y cysyniad o stratigraffeg – sut mae gwrthrychau'n setlo fesul haen, gyda'r rhai diweddaraf yn nes at yr wyneb.

## Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru

**Dibenion y Cwricwlwm**
Cynorthwyo i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddehongli a disgrifio'r gorffennol a'r presennol.

**Maes dysgu**
Y Dyniaethau

**Datganiad o'r hyn sy'n bwysig**
Bydd yr uned hon yn ysgogi ymholi a darganfod, wrth i ddysgwyr gael eu herio i fod yn chwilfrydig ac i gwestiynu, i feddwl yn feirniadol a myfyrio ar dystiolaeth.

**Yn fanwl**
Annog dysgwyr i adolygu'n feirniadol y ffyrdd mae'r digwyddiadau a'r profiadau hyn yn cael eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli.

Gall gwerthfawrogi hunaniaeth, treftadaeth a chynefin, gan gynnwys hanes Cymru a'r byd, ddylanwadu'n emosiynol ac yn ysbrydol ar ddysgwyr, a bod o gymorth i greu ymdeimlad o hunan ac o berthyn.

Galluogi dysgwyr i adnabod beth sy'n gwneud lleoedd a gofodau yn wahanol ac i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r cysylltiadau sydd rhwng pobl a'u hamgylchedd, a hynny mewn cyd-destun cyfoes a hanesyddol.

# Rhagymadrodd



## Beth yw archaeolegydd?

Mae archaeoleg yn ein helpu ni i ddysgu am fywyd bob dydd pobl yn y gorffennol.

Mae pobl wedi bod ar y ddaear am bron i 4 miliwn o flynyddoedd. Ond dim ond tua 5,000 o flynyddoedd yn ôl y dechreuwyd ysgrifennu ein hanes. Felly mae archaeolegwyr yn ein helpu i lenwi'r bylchau mawr. Maen nhw'n gwneud hynny trwy gloddio'r ddaear i ddarganfod sut roedd pobl yn byw yn yr oes o'r blaen. Gelwir eu lle gwaith yn 'gloddfa' neu'n 'gloddiad'. Fodd bynnag, nid dim ond cloddio mae archaeolegydd. Mae'n rhaid gwybod am hanes a gallu ateb cwestiynau ynghylch y pethau maen nhw'n eu darganfod.

Y dyddiau hyn gall archaeolegwyr ddefnyddio dronau a thechnoleg arall fel arolygon 'geoffisegol' i wneud eu gwaith hefyd – ond mae cloddio yn dal yn rhan bwysig o'u gwaith.

Ydych chi wedi dod o hyd i unrhyw beth diddorol yn yr ardd erioed? Efallai eich bod chi wedi darganfod gwrthrychau oedd wedi cael eu gadael ar ôl neu wedi mynd ar goll gan y bobl oedd yn byw yno o'ch blaen? Ydych, rydych chi'n archaeolegwyr, bron iawn!

### Ymchwiliwch!

Ewch ar-lein a dysgwch am ddulliau gweithio archaeolegwyr y dyddiau hyn. Chwiliwch beth mae archaeolegwyr wedi'i ddefnyddio i wneud darganfyddiadau yng Nghymru.



# Darganfod tref Rufeinig Caerllion

Oeddech chi'n gwybod bod 30,000 tunnell o bridd wedi cael ei symud yng Nghaerllion yn 1926, gan ddadorchuddio'r amffitheatr Rufeinig yno? Treuliwyd tri haf rhwng 1927 ac 1929 yn cloddio ac fe ddatgelwyd gweddillion y barics yno hefyd. Allwch chi ddychmygu pa mor gyffrous fyddai darganfod yr olion hanesyddol anhygoel hyn? Dyma lun o Tessa Wheeler, Archaeolegydd yng Nghaerllion, pan gafodd yr amffitheatr ei darganfod.



Amffitheatr Caerllion
© Croeso Cymru

**Ychydig o ffeithiau am arteffactau**

Yn aml iawn, bydd archaeolegwyr yn dod o hyd i wrthrychau diddorol y mae pobl o'r oes a fu wedi eu gadael ar ôl. 'Arteffactau' yw'r enw ar y pethau hyn. Dros y blynyddoedd mae'r pethau a daflwyd – a hyd yn oed hen adeiladau a threfi cyfan – yn gallu cael eu claddu'n ddwfn o dan y ddaear.



Yr archaeolegydd Tessa Wheeler yng Nghaerllion yn 1926 © Amgueddfa Genedlaethol Cymru



Arteffactau Rhufeinig a llawr mosaig a ddarganfuwyd yng Nghaerllion © Amgueddfa Genedlaethol Cymru



Barics Rhufeinig Caerllion © Croeso Cymru

# Celc a thrysor

## Ymchwiliwch!

Ewch ar-lein i ddysgu rhagor am ddarganfyddiadau Rhufeinig pwysicaf Cymru. Gwnewch restr o'r darganfyddiadau mwyaf cyffredin a'r darganfyddiadau mwyaf prin.

Mae darnau arian Rhufeinig, gemwaith a metelau gwerthfawr wedi dod i'r golwg hefyd. Os oes llawer yn cael ei ddarganfod, yr enw ar hyn yw 'celc'. Darnau arian yw'r rhan fwyaf o gelciau Rhufeinig. Gwyddwn am dros 1,200 enghraifft ym Mhrydain!

Does dim rhaid i chi fod yn archaeolegydd i ddod o hyd i arteffactau. Yn Llanfair-ym-Muallt, Powys yn 2021, daeth criw o hyd i gelc o 29 darn arian Rhufeinig drwy ddefnyddio synwyryddion metel. Mae'n debyg i'r celc hwnnw gael ei gladdu i'w gadw'n ddiogel neu ei roi yn offrwm i'r duwiau rhwng OC 145-160. Roedd cynifer o ddarnau arian nes i'r celc gael ei alw'n drysor yn swyddogol!

Ond dyw defnyddio synwyryddion metel ddim yn syniad da bob tro. Mae pobl sy'n cloddio am dystiolaeth archaeolegol yn gallu gwneud difrod a chael gwared ar ddarganfyddiadau pwysig. Mae gan Cadw reolau llym ynghylch defnyddio synwyryddion metel ar eu safleoedd.



Y celc arian Rhufeinig a ddarganfuwyd yn Llanfair-ym-Muallt © Amgueddfa Genedlaethol Cymru

# Ynghudd yn y pridd

Mae archaeolegwyr yn edrych yn ofalus ar bridd o'r safleoedd hefyd am ei fod yn gallu dangos pob math o bethau iddyn nhw. Mae astudio'r pridd yn gallu datgelu pa fath o blanhigion oedd yn tyfu yno yn oes y Rhufeiniaid. Gall pridd ddangos hefyd pa gnydau oedd yn cael eu tyfu ac mae hynny'n gallu awgrymu beth roedd pobl yn ei fwyta yn y cyfnod hwnnw.


Oeddech chi'n gwybod bod archaeolegwyr – trwy astudio'r pridd yn unig – wedi canfod bod y Rhufeiniaid wedi cyflwyno 50 o fwydydd newydd i Brydain? Fe lwyddon nhw i ddarganfod pa mor boblogaidd oedd y bwydydd newydd hefyd. Yng nghefn gwlad roedd seleri, coriander a dil yn boblogaidd ond doedd rhai bwydydd eraill fel datys ac olewydd ddim mor llwyddiannus am eu bod yn dibynnu ar dywydd braf er mwyn aeddfedu.



Gall ffosydd, tyllau ac olion waliau helpu archaeolegwyr i ddatrys sut roedd adeiladau'n edrych hefyd.

Heddiw fyddech chi fyth yn credu bod y waliau cerrig a welir o hyd ar dir fferm ger Aberhonddu yn rhan o gaerau mewndirol mwyaf y Rhufeiniaid. Dewisodd y Rhufeiniaid leoliad y Gaer yn Aberhonddu, a sefydlwyd tua OC 75, am ei fod yn fan cyfarfod hwylus ar ddwy ffordd fawr. Milwyr neu lengfilwyr catrawd marchfilwyr Sbaenaidd Vettonum oedd yn ei gwarchod.

Gallwch ddarganfod rhagor am y Gaer, Aberhonddu a'r hyn a ganfuwyd yno gan archaeolegwyr yn nes ymlaen yn yr uned ar linell amser y Rhufeiniaid.




Gweddillion y Gaer, Aberhonddu © Croeso Cymru

# Haenau o amser

Po bellaf y mae archaeolegwyr yn cloddio, y pellaf yn ôl mewn amser y byddant yn mynd! Edrychwch ar y darlun hwn. Sawl haen sydd angen i chi ei chloddio cyn cyrraedd at y Rhufeiniaid?





# Darganfyddiadau Rhufeinig yng Nghymru

Rydym yn gwybod fod archaeolegwyr wedi darganfod llawer o bethau cyffrous o gyfnod y Rhufeiniaid yng Nghymru ac maen nhw'n dal i wneud darganfyddiadau newydd heddiw.



Baddonau Rhufeinig Caerllion © Croeso Cymru

Yn 2011 daeth tîm o archaeolegwyr Cymreig ar draws gweddillion porthladd Rhufeinig lle'r oedd llongau'n arfer mynd a dod 2000 o flynyddoedd yn ôl yng Nghaerllion ger Casnewydd.

[Gwyliwch y fideo rhagorol hwn]() i weld ailgread o'r safle ym marn yr archaeolegwyr.

Yn 1978, o dan lawr ystafell fyw tŷ cyffredin, daeth archaeolegwyr o hyd i ran o faddonau Rhufeinig Caerllion sy'n dyddio o OC 75!



Sandalau Rhufeinig a ddarganfuwyd yng Nghaerllion © Croeso Cymru

## Ymchwiliwch!

Oes arteffactau Rhufeinig wedi cael eu darganfod ger eich cartref chi erioed?

# Archwiliwch linell amser y Rhufeiniaid yng Nghymru

Digwyddodd goresgyniad, meddianiad ac anheddiad y Rhufeiniaid yng Nghymru dros gyfnod o 360 mlynedd rhwng OC 47 a OC 410. Edrychwch ar y llinell amser ryngweithiol sy'n dangos pa safleoedd y gallwch chi ymweld â nhw a pham eu bod nhw mor ddiddorol. Awn am dro drwy amser gan ddechrau yn y safleoedd hynaf a theithio o'r mannau hynny hyd at ddiwedd teyrnasiad y Rhufeiniaid yng Nghymru.

Castell Caerdydd
Y Pigwn
Castell Collen
Dolaucothi
Y Gaer
Castell Caerffili
Caerllion (Isca)
Caer-went (Venta Silurum)
Segontium
Caer Lêb
Caer Gybi
Din Lligwy

# Castell Caerdydd

## Yn cael ei ddefnyddio: Tua OC 50 - 300



Olion y wal Rufeinig ym muriau Castell Caerdydd

Am bron i 900 o flynyddoedd, bu gorffennol Rhufeinig Castell Caerdydd ynghudd, wedi mynd yn angof. Yn 1888 darganfuwyd olion caer Rufeinig sydd bellach yn cael ei chydnabod fel safle un o gaerau hynaf Cymru. Credir bod pedair caer yno ar un adeg a phob un o faint gwahanol. Adeiladwyd y gaer gyntaf, un bren, ar ôl i Caradog (neu Caractacus) gael ei orchfygu – clywsom ei hanes yn Uned 1.

Ailadeiladwyd y gaer tua OC 75 ar ôl i'r rhan fwyaf o Gymru ddod dan reolaeth y Rhufeiniaid. Yn OC 300 ychwanegwyd wal gerrig a chlawdd pridd. Fe'i defnyddiwyd fel canolfan gan y llynges er mwyn amddiffyn rhag ymosodiadau o'r gorllewin a'r de.

**Canfyddiadau campus:** Mae olion yr hen wal Rufeinig yn y Ganolfan Ymwelwyr. Dysgwch ragor ac ewch i wefan Castell Caerdydd.

# Y Pigwn
## Yn cael ei defnyddio: Tua OC 70 - 84



Yng nghefn gwlad gorllewin Bannau Brycheiniog gallwch gerdded ar ffordd Rufeinig go iawn. Yn driw i arddull y Rhufeiniaid mae'n syth fel saeth ac fe allwch gerdded ar draws yr ucheldir rhwng Llanymddyfri a Threcastell, a oedd yn gaer Rufeinig.

Wrth i chi gerdded fe welwch chi dwmpathau a phantiau rhyfedd yn y ddaear. Dyma'r unig olion sydd ar ôl o'r Pigwn. Yma byddai'r milwyr Rhufeinig yn gwersylla pan oeddent ar orymdaith yn ystod y nos. Roedd dau wersyll yn y Pigwn, yn amgylchynu copa bryn 1,350 troedfedd o uchder uwchben y Waun Ddu (neu'r Gors Ddu). Mae'n swnio'n eithaf brawychus!

Caewch eich llygaid a dychmygwch y gwynt yn rhuo o amgylch y milwyr wrth iddyn nhw orwedd yn ystod y nos. Roedd y Rhufeiniaid yn gorfod gorymdeithio'n bell, er mwyn brwydro i geisio difa'r llwythau Silwraidd felltith yn ne Cymru.

**Sut i gyrraedd:** Dysgwch ragor am y Pigwn a ffyrdd Rhufeinig eraill o ddiddordeb ar wefan Cadw. Gallwch hefyd lawrlwytho'r ap Walking with Romans sy'n rhoi taith dan arweiniad o amgylch gwersylloedd gorymdeithio'r Pigwn.

# Castell Collen, Llanllŷr ger Llandrindod

## Yn cael ei ddefnyddio: OC 70 - dechrau'r 4edd ganrif



Caer Rufeinig Castell Collen © Casgliad y Werin Cymru

Dewisodd y Rhufeiniaid y lleoliad hwn am ei fod yn edrych dros afon Ieithon ger Llandrindod ac yn safle tactegol da. Gallwn weld olion tir amgaeedig petryal, onglog gyda chloddiau a ffosydd. Petaech yn hedfan mewn hofrennydd gallech weld olion cloddfeydd a wnaed gan archaeolegwyr yn 1911 a 1913 o'r awyr!

Yn y 1950au datgelodd cloddfeydd eraill faddondy a adeiladwyd y tu allan i'r prif waliau. Yn 2011 gwnaeth archaeolegwyr ragor o ddarganfyddiadau cyffrous.

**Canfyddiadau campus:** Darganfuwyd llawer o ddarnau brics a theils Rhufeinig sy'n awgrymu eu bod wedi cael eu cynhyrchu gerllaw. Un o'r darganfyddiadau mwyaf diddorol yw darn o garreg gerfiedig sy'n debyg i griffin. Creadur chwedlonol yw griffin, yn hanner llew, hanner eryr. Mae ysgrifen Ladin ar y garreg sy'n dweud 'Bathodyn adrannol yr Ail Leng Awgwstaidd a wnaeth y gaer hon'. Gallwch weld y darganfyddiadau hyn yn Amgueddfa Sir Faesyfed yn Llandrindod.

**Sut i gyrraedd:** Ewch i wefan Coflein er mwyn cael gwybod sut i fynd i Gastell Collen.

# Dolaucothi, Pumsaint

## Yn cael eu defnyddio: Tua OC 75 - 140



Gweithfeydd Rhufeinig yn ogofâu Dolaucothi.

Dolaucothi yw safle'r unig fwynglawdd aur Rhufeinig hysbys ym Mhrydain. Roedd hi'n anodd iawn cael yr aur allan o graig galed ond fe lwyddodd y Rhufeiniaid i gael y maen i'r wal – yn llythrennol! Cloddiodd y Rhufeiniaid dwneli a datblygu technegau blaengar megis adeiladu sianeli dŵr arbennig neu 'ddyfrffosydd'. Roedd y rhain yn dargyfeirio 14 miliwn litr o ddŵr bob dydd i'r gweithfeydd. Roedd eu dulliau yn hynod soffistigedig – darganfuwyd olion olwyn ddŵr Rufeinig y tu mewn i un o'r ceudyllau! Byddai'r dŵr yn cael ei chwistrellu ar wasgedd uchel er mwyn golchi'r holl faw fel y gallent gael gafael ar yr aur.

**Canfyddiadau campus:** Darganfuwyd enghreifftiau hyfryd o emwaith aur Cymreig Dolaucothi. Maen nhw bellach yn cael eu harddangos yn yr Amgueddfa Brydeinig.



Breichled Aur Rufeinig o'r 1-2 G a ddarganfuwyd yn Nolaucothi © Amgueddfa Brydeinig

**Sut i gyrraedd:** Gallwch ymweld â'r ogofâu a chael taith dan arweiniad, golchi aur trwy badell a dysgu rhagor am y dulliau mwyngloddio Rhufeinig ar y safle. Dysgwch fwy ar [wefan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol](wefan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol).

# Y Gaer, Aberhonddu

## Yn cael ei defnyddio: Tua OC 75 - 200



Y Gaer, Aberhonddu
© Croeso Cymru

Roedd y gaer Rufeinig bwysig hon – a oedd wedi'i chuddio y tu ôl i fferm – yn nhiriogaeth llwyth y Silwriaid, a achosodd gryn drafferth i'r Rhufeiniaid! Dewiswyd y fan hon i godi'r gaer am fod dwy brif ffordd yn cyfarfod yma. Byddai'r llengfilwyr Rhufeinig dychrynllyd a oedd wedi derbyn hyfforddiant o'r radd flaenaf neu farchfilwyr y gatrawd Sbaenaidd Vettonum wedi bod yn trampio o gwmpas yr ardal yn ystod teyrnasiad yr Ymerawdwr Claudius. Daethpwyd o hyd i garreg fedd marchfilwr ifanc o'r enw Candidus gerllaw sydd i'w gweld yn Amgueddfa Brycheiniog heddiw.

**Canfyddiadau campus:** Mae yma olion gwarchodfa fawr, ysgubor lle roedd y Rhufeiniaid yn storio grawn, a baddondy poeth. Gallwch weld y wal allanol hyd heddiw a'r tyredau cornel yn dal ar eu traed. Roedd ganddyn nhw siambr danddaearol i guddio pethau gwerthfawr hyd yn oed!

**Sut i gyrraedd:** Mae ffordd yn arwain at y safle. Dysgwch ragor ar wefan Cadw.

# Castell Caerffili

## Yn cael ei ddefnyddio: OC 75 - tua 250



Oeddech chi'n gwybod bod caer Rufeinig wedi bod yng nghastell Caerffili? Yn 1963 roedd y pensaer J. M. Lewis yn cloddio cornel o'r castell er mwyn chwilio am dystiolaeth o Ryfel Cartref 1645. Ond yn hytrach na hynny cafodd dystiolaeth fod caer Rufeinig lawer mwy wedi bod yno yn y ganrif gyntaf!

Roedd gan y safle Rhufeinig glawdd o dyweirch a chlai ar ben sylfaen o gerrig crynion. Darganfu'r archaeolegwyr ei fod tua 360 troedfedd sgwâr gydag arwynebedd o tua 3 erw, sy'n eithaf mawr! Gallai fod tua 500 o filwyr neu 'garsiwn' wedi byw yno. Mae'n debyg bod anheddiad bach o bobl yn byw y tu allan i'r gaer hefyd.

**Canfyddiadau campus:** Canfuwyd crochenwaith o ddiwedd y ganrif gyntaf, darnau o boteli gwydr a darnau bach o blwm ar y safle.

**Sut i gyrraedd:** Gallwch ymweld â safle'r castell mawreddog hwn mewn car neu ar drên, bws neu feic. Dysgwch ragor ar wefan Cadw.

# Caerllion (Isca)

## Yn cael ei defnyddio: OC 75 - 300



Amffitheatr Caerllion
© Croeso Cymru

Mae ymweliad â Chaerllion yn hanfodol os hoffech gael y cyflwyniad perffaith i hanes y Rhufeiniaid yng Nghymru. Fe'i gelwid yn Isca gan y Rhufeiniaid ar ôl yr afon Wysg gerllaw. Caerllion oedd canolfan barhaol lleng Legio II Augusta a arhosodd yno am dros 200 mlynedd.

Roedd y milwyr yn dod o ranbarthau cynnes gogledd yr Eidal, de Sbaen a Provence felly roedden nhw eisiau cysuron cartref. Oherwydd hyn fe adeiladon nhw'r baddonau caer anhygoel. Yma roedd ganddyn nhw ganolfan hamdden o'r radd flaenaf a sba! Roedden nhw'n gallu ymweld â 'masseur' hyd yn oed, a mwynhau sawna. Heddiw gallwch archwilio gweddillion y 'natatio' enfawr neu'r pwll nofio awyr agored. Gallwch weld milwr Rhufeinig yn plymio i'w ddyfnderoedd hyd yn oed (diolch i ddewiniaeth ffilm).

Caerllion yw'r unig safle yn Ewrop lle gallwch weld barics y Lleng Rufeinig lle bu'r milwyr yn cysgu ac yn cadw eu harfau. Hefyd yng Nghaerllion gallwch archwilio'r olion amffitheatr gorau sydd wedi goroesi ym Mhrydain lle bu'r gladiatoriaid yn ymladd hyd at farwolaeth.

**Canfyddiadau campus:** Darganfuwyd casgliad anhygoel o 88 gem wedi'u hysgythru yn nraeniau'r baddondy! Gellir gweld y rhain a llawer o arteffactau eraill yn yr amgueddfa wych ar y safle.



Gem gyda'r dduwies Minerva arni a ddarganfuwyd yn y Baddonau Rhufeinig. © Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Sut i gyrraedd: Gallwch ymweld â Chaerllion mewn car neu ar drên, bws neu feic. Ewch i wefan Cadw am ragor o wybodaeth.

# Caer-went (Venta Silurum)

## Yn cael ei defnyddio: Rhwng OC 75 a'r 4edd ganrif



Olion Rhufeinig
Caer-went
© Croeso Cymru

Efallai nad yw Caer-went mor enwog â Chaerllion (Isca) gerllaw ond mae'n safle pwysig serch hynny. Mae hyn oherwydd bod y gaer yn enghraifft o anheddiad Rhufeinig lle gorchfygwyd llwyth brodorol y Silwriaid. Fel lleoliadau Rhufeinig eraill, nid damwain oedd dewis Caer-went fel safle. Adeiladwyd y gaer ar 'groesffordd' rhwng trefi pwysig eraill, fel Caerloyw a Chaerdydd. Roedd ganddi hefyd faddonau cyhoeddus a threfniant grid Rhufeinig trefnus iawn. Muriau Caer-went yw'r muriau tref Rhufeinig sydd wedi goroesi orau ym Mhrydain. Gallwch weld dros filltir o'r waliau gwreiddiol hyd heddiw. Maen nhw bellach tua 5 metr o uchder mewn mannau ond yn eu hanterth Rhufeinig roedden nhw'n 7 metr o uchder!

**Canfyddiadau campus:** Mae yma olion sylfeini rhes o siopau, Fforwm, a mosaig llawr lliwgar a 'chymhleth iawn' ond mae'n debyg nad oedd 'hypocaust' (lloriau wedi'u gwresogi) yn y dref.

**Sut i gyrraedd:** Gallwch deithio i Gaer-went mewn car neu ar drên neu fws. Ewch i wefan Cadw am ragor o wybodaeth.

# Segontium

## Yn cael ei defnyddio: Tua OC 77 - 394



Golygfa o'r awyr o Segontium

© Croeso Cymru

Dyma'r gaer a ddefnyddiwyd am y cyfnod hiraf yng Nghymru, a hynny am dros 300 mlynedd. Segontium oedd yn rheoli ynys bwysig Môn (Mona). Mae'n safle trawiadol iawn, gyda golygfeydd godidog dros Gaernarfon ac afon Menai. Siâp tebyg i gerdyn chwarae oedd i'r gaer hon, gydag amddiffynfeydd wedi'u gwneud o bridd a phren. Gosodwyd y gatiau mewn modd cymesur, taclus sy'n nodweddiadol o'r Rhufeiniaid ac roedd adeiladau ffrâm bren ar hyd y strydoedd.

Roedd milwyr Rhufeinig o ogledd-orllewin Ffrainc fodern yma tan OC 394. Cynlluniwyd y gaer i ddal dros fil o filwyr! Adeiladwyd anheddiad ('vicus') o'i chwmpas a oedd yn cynnwys masnachwyr a theuluoedd milwyr wedi hynny.

# Caer Lêb, Ynys Môn

## Yn cael ei defnyddio: OC 200 - 300



Mae Caer Lêb yn hen iawn ac yn enghraifft o anheddiad cyn hanesyddol sy'n golygu bod llawer o wahanol 'lwythau' neu bobl wedi byw yno o oes i oes. Saif i'r gorllewin o Frynsiencyn ger Llanfairpwll. Mae'n bur debygol o fod yn anheddiad o'r Oes Haearn a barhaodd i'r cyfnod Rhufeinig.

**Canfyddiadau campus:** Darganfuwyd darnau o grochenwaith, darn arian Rhufeinig a thlws yma, yn dyddio o rhwng OC 200 a OC 300. Darganfuwyd olion tŷ crwn hefyd, gyda llawr carreg a lle tân anarferol (ger y wal yn hytrach nag yn y canol).

**Sut i gyrraedd:** Mae ffordd yn arwain at y safle neu gallwch deithio ar y trên i Lanfairpwll. Dysgwch ragor ar wefan Cadw.

# Caer Gybi

## Yn cael ei defnyddio: Tua'r 3edd ganrif




Gweddillion Rhufeinig
Caer Gybi
© Croeso Cymru

Mae Caer Gybi yn safle trawiadol ar glogwyni isel sy'n edrych draw am y môr yng nghanol tref Caergybi. Mae hyn yn awgrymu'n gryf fod y gaer yn rhan o rwydwaith o amddiffynfeydd arfordirol a oedd yn amddiffyn y Rhufeiniaid rhag ymosodiadau o'r môr. Mae'n bosibl ei bod hefyd yn gysylltiedig â thŵr gwylio o gyfnod diweddar y Rhufeiniaid, sef Caer y Tŵr ar ben Mynydd Tŵr. Mae'n hawdd dychmygu gwyliwr Rhufeinig arno, yn syllu draw am y môr rhag ofn i fôr-ladron Gwyddelig ffyrnig ymosod arnyn nhw!

**Canfyddiadau campus:** Gallwch weld waliau'r gaer siâp petryal hyd heddiw – hyd at 4m o uchder a 1.5 o drwch! Mae yno olion pedwar tŵr cornel hefyd. Dim ond tŵr cornel y gogledd-orllewin o gyfnod y Rhufeiniaid sydd ar ôl heddiw. Mae'n debyg bod safle Caer Gybi wedi cael ei adael pan oedd angen milwyr Rhufeinig i ymladd brwydr fawr yn ôl yn Rhufain. Yn rhyfedd iawn, ni wyddom beth yw enw Lladin y safle Rhufeinig hwn. Yn y 6ed ganrif rhoddwyd y safle i'r Esgob (Sant yn ddiweddarach) Cybi a sefydlodd fynachlog yno.

**Sut i gyrraedd:** Gallwch deithio yno mewn car neu ar y trên. Ewch i wefan Cadw am ragor o wybodaeth.

**Canfyddiadau campus:** Darganfuwyd darnau arian Rhufeinig, olion baddondy, gwesty bach ('mansio') a theml i'r duw Mithras yn Segontium.



Swyndlws lwc dda Rhufeinig o aur a chopr a ddarganfuwyd yn Segontium, gydag arysgrif mewn Groeg
© Amgueddfa Brydeinig

**Sut i gyrraedd:** Gallwch deithio i Segontium mewn car, ar fws neu ar feic er mwyn ymweld â'r arddangosfa ar y safle. Dysgwch ragor ar wefan Cadw.

# Din Lligwy

## Yn cael ei defnyddio: Rhwng y 3edd a'r 4edd ganrif



Anheddiad Rhufeinig hwyr oedd Din Lligwy a ddefnyddiwyd gan y Brythoniaid yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif OC. Roedd ei faint yn fwy na chwarter cae pêl-droed. Mae'n werth ymweld â'r pentref hynafol hynod ddiddorol hwn.

Gallwch weld olion dau gwt crwn a sawl adeilad siâp petryal hyd heddiw. Gallai'r rhain fod wedi cael eu defnyddio fel ysguboriau neu weithdai. Amgylchynwyd y safle gan wal gerrig fawr a oedd yn 15 metr o drwch. Gan mai cymuned amaethyddol oedd pentref Din Lligwy, fe adeiladwyd y waliau hyn i gadw'r anifeiliaid rhag crwydro.

**Canfyddiadau campus:** Mae'r arteffactau a ddarganfuwyd yma yn dangos bod bywyd y bobl wedi'i ddylanwadu gan y ffordd Rufeinig o fyw – darnau arian Rhufeinig, crochenwaith, gwydr, ingot arian bach ac olion gwaith metel.

**Sut i gyrraedd:** Gallwch ymweld â'r safle mewn car. Dysgwch ragor ar [wefan Cadw](wefan Cadw).

# Gweithgaredd Gwych 1

A chithau wedi dysgu am y safleoedd hyn ar y llinell amser, beth am i chi nawr ddilyn Concwest ac Anheddiad Rhufeiniaid Cymru ar fap hanes Cymru Cadw? Bydd yn eich helpu i weld drosoch eich hun yr effaith fawr a gafodd y Rhufeiniaid ar ein tirwedd.

GWYDDONIAETH A THECHNOLEG
SCIENCE & TECHNOLOGY

### Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomena.



# Gweithgaredd Gwych 2

**Beth am i chi drefnu cloddiad bach hefyd?**
Mae yna lawer o ffyrdd y gallwch chi ail-greu cloddiad archaeolegol bach. Defnyddiwch focs esgidiau, pwll tywod, neu hyd yn oed bwll nofio plastig! (Cofiwch ofyn am ganiatâd cyn dechrau)

Dewiswch rai o'r arteffactau o'r rhestr isod. Gallwch ddewis tri pheth organig (pethau oedd unwaith yn fyw) a thri pheth anorganig (pethau na fu erioed yn fyw):

**Organig**

- Craidd afal
- Dail
- Cragen wag (e.e. cragen o lan y môr)
- Darn o bren
- Tudalen o bapur newydd

**Anorganig**

- Darn o fetel e.e. darn arian
- Carreg
- Darn o grochenwaith (e.e. hen gwpan neu ddarn o botyn o'r ardd – gwnewch yn siŵr nad yw'n finiog)
- Rhywbeth o blastig (rhowch hwn ar haen uchaf eich cloddiad gan mai dyma'r deunydd 'mwyaf newydd' ar eich rhestr)



# Gweithgaredd Gwych 2 (parhad)

Yna claddwch eich arteffactau yn ofalus trwy roi tua 10 cm o bridd yn eich cynhwysydd a chladdu dau arteffact ym mhob haen. Ceisiwch feddwl pa arteffact ddylai fynd gyntaf (gan gofio ei oedran). Yna cyfnewidiwch eich cynhwysydd chi am gynhwysydd eich ffrind.

Defnyddiwch offer archaeolegydd – tryweli a brwshys. Dechreuwch drwy ddadorchuddio'r arteffactau sydd wedi cael eu claddu a chofnodwch beth ydyn nhw yn ofalus ar grid er mwyn dangos ble y cawsoch chi hyd i bob gwrthrych. Gallech chi fraslunio pob un hefyd, yn union fel y mae archaeolegwyr go iawn yn ei wneud.

Beth am greu dyddiadur maes archaeoleg er mwyn cofnodi, adnabod, disgrifio a dadansoddi eich canfyddiadau? Yna gallech chi greu arddangosfa hwyliog i ddangos eich darganfyddiadau pwysig! Beth am i chi adael eich cynhwysydd y tu allan am wyth wythnos hyd yn oed, cyn gwneud eich cloddiad bach pan fydd yr arteffactau yn siŵr o fod wedi newid?



Y DYNIAETHAU
HUMANITIES

### Datganiad o'r hyn sy'n bwysig

Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.

Bydd dulliau gweithredu disgyblaethol addas, gan gynnwys dyniaethau digidol, yn gymorth i ddysgwyr gasglu, cyfiawnhau, cyflwyno, dadansoddi a gwerthuso ystod o dystiolaeth.